**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/03073/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Government.Committee.Business@llyw.cymru

Annwyl David,

6 Tachwedd 2018

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref ynglŷn â Deiseb P-05-850 sy'n galw arnom i Amddiffyn Gwastatir Gwent ac i atal traffordd arfaethedig yr M4.

Fel y gwyddoch, aed ati yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus, a barhaodd am flwyddyn ar ei hyd, i graffu'n fanwl ar bob agwedd ar y cynigion i fynd i'r afael â'r problemau gyda thagfeydd ar yr M4 yng nghyffiniau Casnewydd. Roedd cyfle i bawb fod yn rhan o'r Ymchwiliad ac roedd yn gyfle iddynt fynegi barn o blaid neu yn erbyn y cynigion. Ar ôl i adroddiad yr Arolygwyr ddod i law, mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn cynnal y broses diwydrwydd dyladwy er mwyn adolygu'r canfyddiadau fel y bo modd penderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion ai peidio.

Y gwaith hwn, yn ogystal â'r ddadl a'r bleidlais yr ymrwymwyd i'w cynnal yn y Senedd, fydd yn llywio'r penderfyniad terfynol ar fwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio.

Oherwydd bod prosesau priodol yn eu lle eisoes ar gyfer ystyried safbwyntiau a chraffu ar benderfyniadau, nid yw'n ymddangos bod angen i'r Pwyllgor Deisebau ystyried y mater hwn ymhellach, nac ychwaith ei bod yn briodol iddo wneud hynny, ond wrth gwrs, eich penderfyniad chi fydd hwnnw.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael yma www.llyw.cymru/coridor-yr-m4-o-amgylch-casnewydd.

Yr Cywir,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.